# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Chwefror 2021

## SL(5)733 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

Mae rhan 2 o'r Rheoliadau yn ymdrin â pha faterion pellach sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad; y cyfnod amser y mae'r adroddiad yn ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth; y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r adroddiad a ffurf yr adroddiad.

Mae rhan 3 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymrwymo i drefniant partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Ionawr 2021
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

## SL(5)730 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017");
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018");
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Maent yn gymwys i flynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl hynny, ac yn diwygio'r rheoliadau cymorth ariannol i fyfyrwyr presennol uchod i:

- gynyddu faint o gymorth a roddir i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig;
- cydgrynhoi rhai grantiau i fyfyrwyr anabl mewn un lwfans newydd; a
- darparu ar gyfer newidiadau i'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin a gymhwysir i'r fframwaith codio Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch.

O ran y pwynt olaf, mae Rheoliadau 2018 yn darparu, ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny, i fyfyriwr rhan-amser fod yn gymwys i gael cymorth er iddo ennill gradd gyntaf gan sefydliad yn y DU os yw'n astudio un o'r pynciau a restrir yn y rheoliadau. Gwneir darpariaeth debyg yn Rheoliadau 2017 ar gyfer cyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Awst 2018. Diffinnir y pynciau hyn gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch a'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin sy'n rhoi meysydd pwnc mewn grwpiau o fewn y dosbarthiad hwnnw. Mae'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd ac mae wedi'i diweddaru'n ddiweddar. Mae angen diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 felly.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998
**Fe'u gwnaed ar:** 21 Ionawr 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Ionawr 2021
**Yn dod i rym ar:** 26 Chwefror 2021

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Chwefror 2021

## SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Gweithdrefn: Drafft Negyddol

Testun

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Ionawr 2021

**Yn dod i rym ar:**